Mae pobl iechyd a diogelwch yn ymweld â'm busnes – Pam?

Mae HSE ac awdurdodau lleol yn rhannu'r cyfrifoldeb ar gyfer rheoleiddio iechyd, diogelwch a lles y rhai sy'n gweithio yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan weithgaredd gwaith, yn cynnwys y cyhoedd.
Rydym am i iechyd a diogelwch gael ei ystyried fel un o gonglfeini cymdeithas wâr ac yn sgîl hynny cyflawni cofnod o iechyd a diogelwch yn y gweithle a fydd yn arwain gweddill y byd (mae gennym un o'r cofnodion diogelwch gorau eisoes). Rydym yn gweithio tuag at hyn mewn partneriaethau gyda busnesau, gyda gweithwyr a'u hundebau llafur . Rydym yn darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth- yn genedlaethol ac yn lleol.

Rydym hefyd yn llwyddo i gyflawni ein hamcanion drwy ymweld â busnesau unigol. Sut y mae HSE ac awdurdodau lleol yn penderfynu pa fusnesau i ymweld â hwy? Rydym yn gwneud hyn ar sail risg. Rydym yn **canolbwyntio ein gwaith lle mae'r risgiau'n tueddu i fod ar eu huchaf** a lle y byddai'n cael yr effaith fwyaf, yn enwedig lle:

- Mae gennym dystiolaeth **bod perfformiad iechyd a diogelwch yn wael** – naill ai yn eich busnes neu'ch sector, neu os oes cyfradd uchel o ddamweiniau neu salwch yn gysylltiedig â'r math o waith rydych yn ei wneud. Tra'n ymweld â'ch busnes bydd ein staff yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n cael eu gweld fel blaenoriaethau i'r gwelliannu iechyd a diogelwch cenedlaethol (er enghraifft disgyn o uchder neu ar yr un lefel) oherwydd mae ganddynt y potensial mwyaf i wella eich perfformiad iechyd a diogelwch yn genedlaethol.
- **Rydych yn gweithredu** mewn **un o nifer o ddiwydiannau peryglus** (er enghraifft, alltraeth, niwclear, rheilffyrdd, rhai cemegau a ffrwydron). Mae'r rhan fwyaf o'r diwydiannau hyn yn gweithredu dan achos diogelwch neu gyfundrefn drwyddedu. Mae angen i ni wneud asesiad ymlaen llaw o'r achos diogelwch y byddwch wedi ei baratoi yn esbonio sut rydych wedi nodi a rheoli'r peryglon yn eich busnes a allai beryglu eich gweithwyr a/neu aelodau'r cyhoedd. Pan fyddwn yn ymweld â'ch busnes rydym yn chwilio am sicrwydd bod yr amrywiol reolaethau, yn beirianyddol ac yn sefydliadol, yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol o fewn diwylliant iechyd a diogelwch cymesur a chadarnhaol.
- Rydym am **ymchwilio i ddigwyddiad penodol** (damwain neu salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith) neu gŵyn. Rydym yn ymdrechu i ganolbwyntio ar y digwyddiadau mwyaf difrifol - y rhai hynny sydd wedi arwain at farwolaethau neu anafiadau difrifol - neu'r rhai sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau iechyd a diogelwch cenedlaethol. Bydd ymchwiliad ein harolygwyr yn ceisio canfod beth aeth o'i le ac i ddysgu'r wers i'ch busnes chi ac i fusnesau eraill sy'n gwneud yr un math o waith.

Mae staff HSE a staff awdurdodau lleol hefyd yn **gwneud nifer cyfyngedig o ymweliadau** i:

- Asesu'r risgiau mewn busnes neu safle newydd
- Targedu ardaloedd daearyddol penodol neu sectorau gan amlaf i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol er enghraifft poen yn y cefn neu gludiant i'r gweithle
- Gwneud gwiriadau 'ar hap' i wirio cydymffurfiaeth

- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd a phrosesau at ddibenion hyfforddi

Ar gyfer **mentrau sydd ar fwy nac un safle, ein nod yw edrych ar y busnes cyfan**, yn hytrach na safleoedd unigol, a sut rydych yn mynd ati i gynnal safonau cyson - i osgoi dyblygu ac ailadrodd.
Er bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio eu hymdrechion ar flaenoriaethau a gytunwyd yn genedlaethol ac ar ymateb i ddamweiniau a chwynion, gallent hefyd roi ffocws ar faterion sy'n flaenoriaethau penodol i gymunedau lleol.
Beth bynnag fo'r rheswm dros ein hymweliad â'ch busnes byddwm yn **gwirio safonau iechyd, diogelwch a lles** yn eich busnes ac yn **rhoi cyngor i chi** ar sut y gallwch atal pobl rhag mynd yn sâl neu gael eu niweidio yn y gwaith.
Nid ydym yn credu y gellir cael gwared â phob risg yn y gweithle. Yn hytrach, byddwn am weld eich bod yn cymryd y camau cywir i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch. Lle y bo'n briodol, er enghraifft lle mae **amodau'n wael neu ceir achos amlwg o ddiystyru'r gyfraith**, gall ein staff ddefnyddio eu pwerau i ofyn am welliannau, gan gynnwys erlyniad lle bo'n briodol.
Gobeithiwn y bydd yr esboniad hwn o pam rydym yn ymweld â busnesau, sut rydym yn blaenoriaethu a beth y byddwn yn ei wneud yn eich busnes, yn ddefnyddiol. Os hoffech roi unrhyw adborth i ni, ynghylch a yw'r wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol ac eglur, anfonwch eich sylwadau i
business.involvement.team@hse.gsi.gov.uk